GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.

DILYNWCH Y COD TEITHIO.

ADNODDAU DYSGU'R COD TEITHIO, CYFNOD ALLWEDDOL 3

Adnoddau Dysgu'r Cod Teithio, Cyfnod Allweddol 3

Gallai'r cynlluniau gwers gyfrannu at gyfres ehangach o wersi yng Nghyfnod Allweddol 3 gan edrych ar ddiogelwch personol, hawliau a chyfrifoldebau. Mae cysylltiadau gyda deilliannau dysgu penodol o'r fframwaith ABCh ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru'n cynnwys:

Sgiliau

Datblygu meddwl

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddefnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith
- adnabod ac asesu tuedd a dibynadwyedd, e.e. gwerthuso negeseuon gan y cyfryngau

Datblygu cyfathrebu

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- wrando'n astud mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol
- cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol
- mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol
- cymryd rhan mewn dadleuon a phleidleisio ar faterion.

Gweithio gydag eraill

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill
- bod yn bendant ac ymwrthod â phwysau diangen gan gyfoedion
- uniaethu â phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill
- cael mynediad i ystod briodol o wahanol ffynonellau er mwyn cael cymorth, cefnogaeth a chyngor.



ADNODDAU DYSGU'R COD TEITHIO, CYFNOD ALLWEDDOL 3

Ystod

Dinasyddiaeth weithgar

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddatblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill
- cael eu cyffwrdd gan anghyfiawnder, ecsbloetio a gwrthod hawliau dynol:
- cyfranogi yn yr ysgol a'r gymuned ehangach

a deall:

- eu hawliau, e.e. *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*, a'u cyfrifoldebau
- eu cyfrifoldebau fel dinasyddion ifanc yng Nghymru

Iechyd a lles emosiynol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddangos agwedd gyfrifol at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach
- datblygu agweddau cadarnhaol atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill

Datblygiad moesol ac ysbrydol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddeall y gweithredoedd sy'n dda ac yn ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd.